# Diweddariad Covid-19 – Marchnadoedd Llaeth

*Gwybodaeth yn gywir am 12:30pm ar 03.04.2020*

- Mae sefyllfa proseswyr sy'n gwerthu i adwerthwyr sefydledig yn gryf ar hyn o bryd.
- Gallai'r cyflenwad gormodol o laeth hylif yn sgil y newid yn ymddygiad prynwyr arwain at danseilio'r farchnad, ac mae prisiau am laeth sydd dros ben bellach yn gostwng i 15c y litr, a gallai hynny waethygu wrth i ni agosáu at y cynnydd gwanwynol yng nghyfanswm y llaeth a gynhyrchir.
- Fe wnaiff dirwasgiad byd-eang orfodi gostyngiad ym mhrisiau marchnadoedd cynwyddau, yn cynnwys llaeth.
- Paratowch eich busnes at unrhyw ddirywiad, a mynnwch gymorth eich banc ymlaen llaw.

## Sefyllfa'r Diwydiant, Mawrth 2020

Mae argyfwng COVID-19 wedi arwain at chwalfa cymdeithasol ac economaidd yn y DU ac mewn sawl rhan arall o'r byd. Mae effaith yr argyfwng hwn yn debygol o arwain at ddirwasgiad, ac mae Llywodraethau yn brwydro i atal hyn.

Yn ôl adwerthwyr bwyd, mae'r galw am fwyd wedi cynyddu'n enfawr yn y DU oherwydd maent bellach yn cyflenwi 100% o'r bwyd, o'i gymharu â 60% ar adegau arferol. Fodd bynnag, dywedir fod y galw wedi arafu yn dilyn y cynnydd sylweddol yr wythnos ddiwethaf. Felly, mae gennym ni farchnad laeth dwy haen; Arla a Muller yw'r "buddugwyr" ar hyn o bryd, fel cwmnïau allweddol sy'n cyflenwi llaeth hylif i adwerthwyr. Mae gweddill y proseswyr oll yn wynebu sefyllfaoedd cymysg, â marchnadoedd cynwyddau byd-eang yn gwanhau yn wyneb chwalfa ym maes gwasanaethau bwyd, gostyngiad ym mhrisiau olew (mae prisiau'r rhan fwyaf o gynwyddau yn gysylltiedig â phris olew), ynghyd â llaeth tymhorol ychwanegol yn hemisffer y gogledd. Mae symud cymeriant o faes gwasanaethau bwyd i faes adwerthu yn creu gormod o gapasiti prosesu llaeth hylif, ac mae hynny'n gostwng prisiau am laeth sydd dros ben, a chaiff y sefyllfa ei gwaethygu gan y cynnydd gwanwynol yng nghyfanswm y llaeth a gynhyrchir gan achosi ansefydlogrwydd yn y farchnad.

## Rhagolygon, cynllunio a chyngor

Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa ar gyfer diwydiant llaeth y DU yn dal yn ansicr, yn enwedig o weld y newyddion cadarnhaol am brisiau llaeth a gaiff cyflenwyr Muller ym mis Mai. Fodd bynnag, mae hi'n achos o "obeithio'r gorau a chynllunio at y gwaethaf" heb os nac oni bai. Mae'n debyg y bydd rhagor o ostyngiadau ym mhris llaeth, ac yn achos rhai, byddant yn ostyngiadau llym – mae gwerthoedd llaeth sy'n cael ei werthu ar y farchnad cynwyddau yn dal yn uwch nag 20c y litr, ond nid yn llawer uwch.

Mae sawl senario yn bosibl. Mae'n bwysig i ffermwyr sy'n cyflenwi proseswyr mewn cadwyni cyflenwi bregus baratoi cynllun i allu ymdopi ag unrhyw ddirywiad, gan sicrhau eu bod wedi'u paratoi am unrhyw newidiadau. Yn achos eraill sy'n rhan o gadwyni cyflenwi mwy integredig, gallai'r rhagolygon fod yn fwy cadarnhaol, ond rydym yn eu cynghori hwythau hefyd i gynllunio at unrhyw anwadalrwydd. Ym mhob achos, sicrhewch eich bod chi wedi'ch paratoi a chadwch mewn cysylltiad â rheolwr eich banc fel y gallwch gael eu cymorth.

*Paratowyd Kite Consulting*

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government